**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

26 Gorffennaf 2024

Annwyl Dawn,

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Diolch i chi a'ch swyddogion am ddod i'n sesiwn dystiolaeth ar 17 Gorffennaf i drafod y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Mae ychydig o gamau gweithredu dilynol wedi codi o'r sesiwn honno. Hoffem hefyd achub ar y cyfle hwn i godi un mater arall ar wahân gyda chi yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys yr holl faterion hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddwn yn ystyried drafft o'n hadroddiad ar y Bil pan fydd y Pwyllgor yn dychwelyd ar ôl toriad yr haf. Byddai'n dda cael eich ymateb cyn hynny, erbyn dydd Gwener 6 Medi, fel y gall ein hadroddiad adlewyrchu ei gynnwys.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad**

## Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

1. O ran dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, gwnaethom ofyn i Arolygiaeth Gofal Cymru a fydd y darpariaethau yn y Bil a'r memorandwm esboniadol sy'n ymwneud â lleoliadau atodol yn gweithredu i bob pwrpas i 'gyfreithloni' a normaleiddio lleoliadau anghofrestredig yng Nghymru. Mae hyn oherwydd nad yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn gwahardd defnyddio unrhyw leoliad anghofrestredig ar gyfer plentyn o unrhyw oedran. Ymhellach, mae paragraff 55 o'r memorandwm esboniadol yn cyfeirio at leoliad yn golygu lletya plentyn mewn llety anghofrestredig dros dro neu mewn achosion brys. Mewn ymateb, dywedodd yr Arolygiaeth wrthym:

   *"we made a query to Welsh Government about that. And my understanding is that that is an incorrect use of the word. So, sometimes, the words 'unregulated' and 'unregistered' are mixed up. So, what we've been told is that the intention was that that reference should be 'unregulated'. (...) we were content with the response that we got that that was an unintentional reference within the explanatory memorandum, and sure that will be—I'm hoping that will be—altered."*

   *[Am y drafodaeth lawn, gweler paragraffau 204-209, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2024]*

   A allwch gadarnhau eich safbwynt mewn perthynas â'r uchod ac, yn benodol, a ydych yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil neu yn y memorandwm esboniadol.

2. O ran materion gofal iechyd parhaus, mae awdurdodau lleol yn galw am adolygiad brys o holl broses gofal iechyd parhaus. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r Fframwaith presennol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus o fewn pum mlynedd o'i roi ar waith, gyda disgwyl y caiff yr adolygiad nesaf ei gynnal yn 2026/27.
   Gwnaethoch ymrwymo i ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed gyda'r adolygiad o'r Fframwaith presennol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus. Fel rhan o hyn, hoffem wybod a oes lle i'r adolygiad hwn gael ei ddwyn ymlaen, ac a oes mantais mewn gwneud hyn fel y gall unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r system bresennol ddigwydd wrth i'r taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus gael eu cyflwyno.

3. Hefyd o ran gofal iechyd parhaus, clywsom gan gynrychiolwyr byrddau iechyd nad oes fframwaith perfformiad ar gyfer gofal iechyd parhaus ar hyn o bryd, gan ei fod yn y broses o gael ei ddiwygio. Gwnaethant ddweud bod y fframwaith hwn yn hollbwysig, ac y dylai gynnwys

metrigau i gael ciplun o gynnydd a llwyddiant a'u mesur. Gwnaethoch gytuno i ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet roi inni'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yn y maes hwn, gan gynnwys manylion ynghylch pryd y bydd y fframwaith diwygiedig yn cael ei roi ar waith.